



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives



Brechu

COVID-19

**Canllaw i bobl sydd
â system imiwnedd
wan iawn**

Medi 2021



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Mae'r daflen hon yn egluro pam mae angen y trydydd dos sylfaenol o frechiad COVID-19 ar bobl sydd â system imiwnedd wan iawn.

Pam mae angen trydydd dos o'r brechlyn COVID-19 ar rai pobl sydd â system imiwnedd wan iawn?

Mae COVID-19 yn glefyd anadlol heintus iawn sy'n gallu achosi salwch difrifol mewn pobl sydd â system imiwnedd wan iawn (yn ddifrifol imiwnoataliedig). Os ydych yn unigolyn sydd â system imiwnedd wan iawn oherwydd cyflwr iechyd sylfaenol neu driniaeth feddygol efallai na fyddwch wedi dangos ymateb imiwnyddol da i'r ddau ddos cyntaf o frechiad COVID-19. Rydych yn cael cynnig trydydd dos sylfaenol o'r brechlyn i wella eich lefelau imiwnedd i roi gwell amddiffyniad i chi.



Pwy yr ystyrir bod ganddynt system imiwnedd wan iawn?

Mae'r trydydd dos o'r brechlyn yn cael ei gynnig i unigolion 12 oed a throsodd a oedd yn ddifrifol imiwnoataliedig ar adeg eu dos cyntaf neu ail ddos o frechiad COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sydd wedi cael neu sydd â:

- chanserau'r gwaed (fel lewchemia neu lymffoma)
- imiwnedd is oherwydd triniaeth (fel meddyginiaeth steroid dos uchel, therapi biolegol, cemotherapi, radiotherapi)
- imiwnedd is oherwydd anhwylderau'r system imiwnedd a etifeddwyd
- trawsblaniad organ neu drawsblaniad mêt esgryn
- clefydau a thriniaethau sy'n effeithio ar y system imiwnedd (fel HIV a reolir yn wael)

Os nad ydych yn siŵr a oes angen trydydd dos o'r brechlyn arnoch, siaradwch â'r arbenigwr sy'n gysylltiedig â'ch gofal.

Faint o ddosau fydd eu hangen arnaf?

Ar yr adeg hon bydd angen yr un dos ychwanegol hwn arnoch er mwyn helpu i wella eich amddiffyniad. Fel eich dosau blaenorol, bydd y brechlyn yn cael ei roi yn rhan uchaf eich braich.

Efallai y bydd angen pigiad atgyfnerthu yn ddiweddarach hefyd.

Pryd y bydd y trydydd dos o'r brechlyn COVID-19 yn cael ei roi?

Dylid rhoi'r trydydd dos o leiaf wyth wythnos ar ôl yr ail ddos, ond bydd yr amseru'n dibynnu ar unrhyw driniaeth y gallech fod yn ei chael.

Lle y bo'n bosibl, dylid oedi'r trydydd dos tan o leiaf bythefnos ar ôl y cyfnod imiwnoataliedig neu os ydych yn cael cyfres o driniaethau dylech ei gael ar adeg rhwng triniaethau pan fo'ch system imiwnedd gryfaf. Gellir trafod amseriad eich trydydd dos gyda'ch arbenigwr.

Sut y byddaf yn cael fy mrechiad?

Bydd y GIG yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi pryd a ble i gael y brechlyn.

Pwy na ddylent gael y trydydd brechiad?

Os ydych wedi cael adwaith difrifol iawn i'r dos blaenorol o'r brechlyn, dylech drafod hyn gyda'ch meddyg.



A fyddaf yn profi unrhyw sgil-ffeithiau?

Mae sgil-ffeithiau cyffredin iawn yn cynnwys:

- cael teimlad trwm, poenus ac anesmwyth yn y fraich ar ôl y pigiad am sawl diwrnod ar ôl y brechiad
- teimlo'n flinedig
- cur pen
- poenau cyffredinol, neu symptomau ysgafn tebyg i fflw

Efallai y cewch dwymyn ysgafn am ddau i dri diwrnod, ond mae tymheredd uchel yn anarferol a gall awgrymu bod gennych haint COVID-19 neu haint arall. Gallwch gymryd y dos arferol o barasetamol (dilynwch y cyngor ar y pecyn) a gorffwyswch i'ch helpu i deimlo'n well. Peidiwch â chymryd mwy na'r dos arferol. Un sgil-ffaith sy'n llai cyffredin yw chwyddo'r chwarennau lleol yn y gwddf a'r gesail. Mae hyn yn dechrau ychydig ddyddiau ar ôl y brechlyn a gall bara hyd at bythefnos.

Mae'r symptomau hyn fel arfer yn para llai nag wythnos. Os yw eich symptomau fel pe baent yn gwaethgu neu os ydych chi'n bryderus, ffoniwch GIG 111 Cymru ar 111 neu eich meddygfa. Os nad yw 111 ar gael yn eich ardal chi, ffoniwch 0845 46 47. Mae galwadau i GIG 111 Cymru am ddim o linellau tir a ffonau symudol. Mae galwadau i 0845 46 47 yn costio 2c y funud ynghyd â thâl arferol eich darparwr ffôn.

Gallwch roi gwybod am unrhyw sgil-ffeithiau ar-lein yn: [coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk](https://www.coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk) neu drwy'r ap Cerdyn Melyn.

Ceir rhagor o wybodaeth a thafleini i gleifion yn: icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19



Beth os byddaf yn colli brechiad?

Os nad ydych wedi cael brechlyn COVID-19 eto neu os ydych wedi colli eich ail ddos dylech ei gael cyn gynted â phosibl.

Bydd angen y trydydd dos arnoch o hyd ond bydd yr amseriad yn dibynnu ar unrhyw driniaeth y gallech fod yn ei chael. Gallwch drafod hyn gyda'ch arbenigwr.

Rhagor o wybodaeth

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am frechlynnau COVID-19, gan gynnwys eu cynnwys a sgil-efeithiau posibl yn: **coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk/productinformation**

Gallwch roi gwybod am unrhyw sgil-efeithiau ar-lein yn: **coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk** neu drwy lawrlwytho'r ap Cerdyn Melyn.

I gael gwybod sut y mae'r GIG yn defnyddio eich gwybodaeth, ewch i: **111.wales.nhs.uk/aboutus/yourinformation/?locale=cy**

I gael y daflen hon mewn fformatau eraill ewch i: **iechydcyhoedduscymru.org/adnoddau-gwybodaeth-iechyd**



© Iechyd Cyhoeddus Cymru, Medi 2021
(gyda chydabyddiaeth i Iechyd Cyhoeddus Lloegr)

Fersiwn 1
ISBN 978-1-78986-154-489

